

**GORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU PIBLINELL CARBON DEUOCSID HYNET
Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN070007**

**HYSBYSIAD O DDERBYN CAIS
AR GYFER GORCHYMYN CYDSYNIAD DATBLYGU GAN YR AROLYGIAETH
GYNLLUNIO (AR RAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS FUSNES, YNNI A
STRATEGAETH DDIWYDIANNOL)**

**O dan Adran 56 o Ddeddf Cynllunio 2008, Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio
Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 a Rheoliad 16 o
Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Aseu Effaith Amgylcheddol) 2017**

Hysbysir drwy hyn fod yr Ysgrifennydd Gwladol Dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ("yr Ysgrifennydd Gwladol") wedi derbyn cais gan Liverpool Bay CCS Limited (rhif cwmni 13194018) sydd â'i swyddfa gofrestrdig yn Eni House, 10 Ebury Bridge Road, Llundain, Lloegr, SW1W 8PZ ("yr Ymgeisydd") ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu o dan y Ddeddf Cynllunio 2008 ("y Cais"). Cyflwynwyd y Cais gan yr Ymgeisydd i'r Ysgrifennydd Gwladol d/o yr Arolygiaeth Gynllunio ar 3 Hydref 2022 ac fe'i derbyniwyd ar 31 Hydref 2022. Y cyfeirnod a roddwyd i'r Cais gan yr Arolygiaeth Gynllunio yw EN070007.

Crynodeb o'r Prosiect

Mae'r Cais yn ymwneud a'r gwaith o adeiladu a gweithredu piblinell carbon deuocsid ('CO₂') arfaethedig newydd rhwng Ince, ger Stanlow, a'r Fflint, ac ail-bwrpasu a gweithredu piblinell nwy naturiol bresennol rhwng Cei Connah a Therfynfa'r Parlwr Du ar gyfer cludo CO₂.

Gellir gweld map yn dangos lleoliad y Datblygiad Arfaethedig (a ddiffinnir isod) ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yn y cyfeiriad canlynol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/piblinell-carbon-deuocsid-hynet-north-west/>.

Dyma'r datblygiad arfaethedig y ceisir y GCD ar ei gyfer:

- a. Adeiladu a defnyddio piblinell o Osodiad Uwchben y Ddaear ('AGI') Ince i biblinell AGI Stanlow (20").
- b. Adeiladu a defnyddio piblinell o AGI Stanlow i AGI y Fflint drwy AGI Northop Hall (36").
- c. Adeiladu a defnyddio piblinell o AGI y Fflint i bwynt cysylltu â'r biblinell nwy naturiol bresennol rhwng Cei Connah a Therfynfa'r Parlwr Di ('Cysylltiad y Fflint') (24").
- d. Ail-bwrpasu a defnyddio'r biblinell nwy naturiol bresennol ar gyfer cludo CO₂ o Gysylltiad y Fflint i Derfynfa'r Parlwr Du (24").
- e. Adeiladu a defnyddio AGI Ince.
- f. Adeiladu a defnyddio AGI y Fflint.
- g. Adeiladu a defnyddio AGI Stanlow.
- h. Adeiladu a defnyddio AGI Northop Hall.

i. Adeiladu a defnyddio Gorsafoedd Falf Bloc ('BVSs') wedi'u lleoli ar hyd y biblinell nwy naturiol bresennol rhwng Cysylltiad y Fflint a Therfynfa'r Parlwr Du a'r biblinell o AGI Stanlow i AGI y Fflint.

Mae eitemau ai gyda'i gilydd yn ffurfio'r '**Biblinell**'.

j. Seilwaith arall fel cabinetau unioni trawsnewidyddion amddiffyn cathodig.
k. Gwaith ategol sy'n rhan annatod o adeiladu'r Biblinell gan gynnwys safleoedd adeiladu a thraciau mynediad.

Mae'r holl eitemau a-k gyda'i gilydd yn ffurfio'r '**Datblygiad Arfaethedig**'.

Byddai'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu hefyd yn awdurdodi: (i) caffael gorfodol buddiannau mewn tir a hawliau dros dir; (ii) y pwerau i ddefnyddio tir yn barhaol a dros dro; (iii) adeiladu mynediadau dros dro i'r Datblygiad Arfaethedig; (iv) am gyfnod dros dro, cau neu ddargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus, gwaith stryd a gwaith priffyrdd; a (v) cymhwyso a datgymhwyso deddfwriaeth benodol.

Mae angen Gorchymyn Cydsyniad Datblygu oherwydd bod y Datblygiad Arfaethedig yn brosiect seilwaith o bwys cenedlaethol yn unol ag adrannau 14(1) a 21 o Ddeddf Cynllunio 2008, gan y byddai'n awdurdodi adeiladu a gweithredu piblinell draws gwlad. Am y rheswm hwn, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn dod o fewn cylch gwaith pwerau gwneud penderfyniadau yr Ysgrifennydd Gwladol.

Datblygiad Asesu Effaith Amgylcheddol:

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn ddatblygiad asesiad effaith amgylcheddol (EIA) at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2017. Mae datganiad amgylcheddol yn cyd-fynd â'r Cais sy'n rhoi disgrifiad manwl o'r Datblygiad Arfaethedig a chanlyniadau'r EIA a gynhaliwyd.

Ffurflen gais a dogfennau cysylltiedig:

Gellir gweld a lawrlwytho'r holl ddogfennau sy'n rhan o'r Cais ('Dogfennau'r Cais') am ddim ar-lein ar dudalen Prosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet o wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio o dan y tab dogfennau:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/piblinell-carbon-deuocsid-hynet-north-west/>

Os oes angen copi o Ddogfennau'r Cais arnoch, gellir darparu'r rhain am ddim ar ffon USB arnoch, gellir ei darparu yn rhad ac am ddim (un ffon USB ar gyfer pob aelwyd). Defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer yr Ymgeisydd isod i ofyn am hyn.

Y bwriad, yn amodol ar gyfyngiadau mynediad neu gadw pellter cymdeithasol a orfodwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19 neu unrhyw reswm arall, yw y bydd y Dogfennau Cais ar gael drwy dudalen Prosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/piblinell-carbon-deuocsid-hynet-north-west/>. Mae'r wefan ar gael drwy gyfrifiadur neu lechen o 1 Rhagfyr 2022 yn y Mannau Mynediad Cymunedol canlynol:

Lleoliad	Bydd y dogfennau ar gael i'w gweld yr amseroedd canlynol:
Llyfrgell Ellesmere Port Civic Way, Ellesmere Port, CH65 0BG 0151 337 4684	Dydd Llun 9am-7pm, dydd Mawrth 9am-5pm, dydd Mercher 9am-5pm, dydd Iau 9am-7pm, dydd Gwener 9am-7pm, dydd Sadwrn 9am-1pm, dydd Sul ar gau.
Llyfrgell y Fflint Stryd yr Eglwys, Y Fflint, CH6 5AP 01352 703737	Dydd Llun 9:30am-5pm, Dydd Mawrth 9:30am-7pm, Dydd Mercher 9:30am-5pm, Dydd Iau 9:30am-7pm, Dydd Gwener 9:30am-5pm, Dydd Sadwrn 9:30am-12pm ar gau ddydd Sul.
Llyfrgell Prestatyn 21 Rhodfa'r Brenin, Prestatyn, LL19 9AA 01745 854841	Dydd Llun 9.30am-6pm, dydd Mawrth 9.30am-5pm, dydd Mercher 9.30am-1pm; Dydd Iau 9.30am-5pm, dydd Gwener 9.30am-5pm, dydd Sadwrn, 9.30am-12.30pm, ar gau ddydd Sul.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ddogfennau'r Cais, unrhyw ymholiadau ar gael gafael ar ddogfennau neu os oes angen copi o Ddogfennau'r Cais arnoch wedi'i ddarparu ar ffon USB, gallwch anfon e-bost at info@hynet.co.uk, ysgrifennu at FREEPOST HYNETH NORTH WEST, neu gysylltu â'r Ymgeisydd dros y ffôn ar 0203 116 5919.

Gellir cyflenwi Dogfennau'r Cais ar ffurf copi caled hefyd ar gais am gost uchafswm o £1,075 ar gyfer pob dogfen (gan gynnwys ffeiliau, cloriau a meingefnau). Ar gyfer unrhyw atgynhyrchu dogfennau pwrpasol, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi'r gost.

Sylwadau Perthnasol:

Caiff unrhyw berson gofrestru fel Parti â Buddiant drwy gyflwyno Sylwadau Perthnasol ar y Cais yn ystod y cyfnod sylwadau. **Mae'n rhaid** i unrhyw Sylwadau Perthnasol (gan roi rhybudd o unrhyw fuddiant yn y Cais neu wrthwynebiad iddo) gael eu cyflwyno ar y ffurflen gofrestru ofynnol a ddarperir gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Gellir gweld ffurflen gofrestru'r Arolygiaeth Gynllunio ar-lein drwy dudalen y project ar y wefan hon: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/piblinell-carbon-deuocsid-hynet-north-west/> o 1 Rhagfyr.

Cysylltwch yn uniongyrchol â'r Arolygiaeth Gynllunio am gopïau papur o'r ffurflenni cofrestru, drwy ffonio **0303 444 5000**, gan roi enw'r Cais (Piblinell Carbon Deuocsid HyNet) a'r cyfeirnod: EN070007. Gellir anfon copi caled o'r ffurflen wedi'i llenwi at yr Arolygiaeth Gynllunio i'r cyfeiriad canlynol:

The Planning Inspectorate, Temple Quay House, Temple Quay, BRISTOL, BS1 6PN.

Mae'n rhaid i'r holl Sylwadau Perthnasol gynnwys manylion enw, cyfeiriad a rhif ffôn y Parti â Buddiant, ynghyd ag amlinelliad o'r pwyntiau y bwriedir eu gwneud yn y cyfnod archwilio.

Sicrhewch eich bod yn dyfynnu cyfeirnod **EN070007** ym mhob gohebiaeth â'r Arolygiaeth Gynllunio ynghylch y Cais.

Mae 'Nodyn Cyngor 8.2: Sut i gofrestru i gymryd rhan mewn Archwiliad' yr Arolygiaeth Gynllunio, yn rhoi canllawiau eraill ynghylch sut i gofrestru a gwneud cynrychiolaeth berthnasol a gellir eu gweld drwy'r ddolen ganlynol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/nodyn-cyngor-8-2-sut-i-gofrestru-i-gymryd-rhan-mewn-archwiliad/>

Noder bod yn rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio gael y sylwadau erbyn 11.59pm ar Dydd Gwener 13eg o Ionawr 2023.

Caiff Sylwadau Perthnasol eu gwneud yn gyhoeddus a byddant yn ddarostyngedig i bolisi preifatrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/planning-inspectorate-privacy-notice/customer-privacy-notice>

Liverpool Bay CCS Limited